# Cefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu’r gofynion wrth gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau, a’i defnyddio. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r unigolyn i gael gafael ar wybodaeth, a'i defnyddio, ac yna gwerthuso ac adrodd yn ôl.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi eu dewisiadau a'u hanghenion am wasanaethau a chyfleusterau
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gybodaeth hygyrch am wasanaethau a chyfleusterau
3. adolygu a nodi dewisiadau unigolion o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael
4. cefnogi unigolion ac eraill i ddefnyddio gwybodaeth i nodi unrhyw heriau neu risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a chyfleusterau, a mynd i'r afael â'r rhain
5. cefnogi unigolion ac eraill i ddewis gwasanaethau a chyfleusterau sy'n cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adrodd yn ôl ynghylch effeithiolrwydd yr wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau o ran cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
7. cefnogi unigolion ac eraill i nodi newidiadau a fyddai'n gwella effeithiolrwydd yr wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
8. annog unigolion ac eraill i adrodd yn ôl i wasanaethau a chyfleusterau ynghylch effeithiolrwydd yr wybodaeth
9. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
10. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i unigolion
2. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol
3. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth gael gafael ar wybodaeth a’i chyflwyno
5. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar y gwasanaethau a’r cyfleusterau y mae unigolion eu hangen
6. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i adolygu a gwerthuso gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
7. pwysigrwydd bod yr wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau yn berthnasol ac yn gyfredol a phwy i roi gwybod iddynt pan nad yw hynny'n wir
8. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i nodi a rhoi gwybod am unrhyw wybodaeth sy’n wahaniaethol neu’n annefnyddiol
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
10. ffyrdd o ddarparu gwybodaeth mewn fformatau sy’n hygyrch ac yn gynaliadwy
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
12. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
13. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
14. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
15. Sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
16. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau, a sut i fynd i'r afael â hyn

17. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD219

Cefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD219 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |